INSC021

Gweithio mewn ffordd nad yw'n niweidio'r amgylchedd

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithio mewn ffordd nad yw'n niweidio'r amgylchedd a chyfrannu at ei ddiogelu. Rhaid i chi gymryd camau i leihau niwed i'r amgylchedd a chwblhau tasgau a gweithgareddau mewn modd sy'n lleihau neu'n dileu difrod neu aflonyddwch wrth ddilyn gweithdrefnau eich sefydliad.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gweithredu a chynnal eich cyfarpar gwaith i leihau'r niwed amgylcheddol
2. sicrhau bod eich sefydliad yn defnyddio cynhyrchion ecogyfeillgar neu fwy naturiol
3. gwneud gwaith mewn modd nad yw'n niweidiol i'r amgylchedd
4. sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol ag arferion a gweithdrefnau eich sefydliad sy'n gwella perfformiad amgylcheddol
5. nodi unrhyw niwed amgylcheddol posibl neu wirioneddol a hysbysu'r aelod staff perthnasol amdanynt
6. cymryd camau i leihau neu ddileu'r niwed os caiff ei awdurdodi i wneud hynny yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. cyfrannu at wella arferion a gweithdrefnau amgylcheddol eich sefydliad
8. casglu a gwaredu gwastraff mewn ffordd sy'n lleihau'r risg neu niwed i'r amgylchedd
9. ailgylchu'r deunyddiau a ddefnyddir a deunydd pacio mewn ffordd ecogyfeillgar

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y ffyrdd y dylid defnyddio cyfarpar a deunyddiau er mwyn lleihau niwed amgylcheddol
2. goblygiadau llygredd a halogiad i'r amgylchedd
3. sut i adnabod gwastraff o egni, dŵr, cyfarpar a deunyddiau
4. y dulliau gweithio fydd yn lleihau llygredd a gwastraffu adnoddau
5. ystod y cynhyrchion ecogyfeillgar neu fwy naturiol a ddefnyddir gan eich sefydliad
6. y mathau o ddifrod a all ddigwydd, yr effaith y gall y rhain ei chael ar yr amgylchedd a'r camau i'w cymryd i wneud yn iawn amdanynt
7. y dulliau gwaredu ac ailgylchu gwastraff fydd yn lleihau'r risg i'r amgylchedd
8. y gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am niwed a nodwyd neu risgiau posibl i'r amgylchedd
9. y rheolau a'r gweithdrefnau perthnasol ar gyfer ailgylchu

Gweithio mewn ffordd nad yw'n niweidio'r amgylchedd

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTC107
Galwedigaethau perthnasol	Menter manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaeth; Galwedigaethau Elfennol; Galwedigaethau Glanhau Elfennol
Cyfres/Set	Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi
Geiriau Allweddol	Amgylchedd, tasgau, gweithgareddau, diogelu, ailgylchu